MYNEGAI

	Tudalen
Rhagair gan y Cynghorydd Peredur Jenkins	1
Cyllideb Gweithwyr 2018/2019	3
Y Gyllideb Refeniw 2018/2019	
Crynodeb	4
Addysg *(Gan gynnwys trefniant Cyd-bwyllgorau)*	6
Cefnogaeth Gorfforaethol	22
Cyllid	26
Economi a Chymuned	28
Oedolion, Iechyd a Llesiant	33
Plant a Chefnogi Teuluoedd	44
Priffyrdd a Bwrdeistrefol (Gan gynnwys Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru)	48
Amgylchedd (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Eiddo Corfforaethol) *(Gan gynnwys trefniant Cyd-bwyllgor)*	54
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	58
Ymgynghoriaeth Gwynedd	60
Corfforaethol	62
Y Gyllideb Gyfalaf 2018/2019	63

CYLLIDEB CYNGOR GWYNEDD 2018/19

RHAGAIR GAN Y CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS
AELOD CABINET AR GYFER CYLLID

Strategaeth Ariannol y Cyngor

Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynllunio ymlaen llaw gan fod yn fyw i'r hyn sydd ar y gorwel bob tro wrth sefydlu ein cyllideb. Unwaith eto eleni, mae'r Cyngor wedi elwa o'r cynllunio tymor-canolig, a llwyddwyd i fantoli cyllideb 2018/19 heb gymryd unrhyw benderfyniad newydd sy'n torri gwasanaethau i'r dinesydd.

Fel holl gynghorau Cymru, roedd Gwynedd yn wynebu bwlch ariannol sylweddol. Erbyn 2018/19 roedd angen cynnydd net o £7m yn ein gwariant er mwyn "sefyll yn llonydd", gan gynnwys £6.5m ar gyfer chwyddiant.

Derbyniodd Cyngor Gwynedd gynnydd grant o £1m gan Lywodraeth Cymru (wedi addasu am drosglwyddiadau i'r Setliad), sy'n gynnydd o 0.6% (uwch na'r cyfartaledd 0.2% ar draws Cymru) erbyn 2018/19. Roedd y cynnydd yma'n annigonol ar gyfer cwrdd â chwyddiant, ac felly yn doriad mewn termau 'real'.

Gadawodd hynny fwlch ariannu o £6m erbyn 2018/19, a penderfynodd y Cyngor (yn ei gyfarfod ar yr 8fed o Fawrth) i fantoli'r gyllideb drwy –

- weithredu £1.5m o arbedion effeithlonrwydd cymeradwy;
- gweithredu £369k o doriadau a gymeradwyodd y Cyngor ym mis Mawrth 2016;
- cyflawni arbedion effeithlonrwydd pellach o £896k, a
- codi'r Dreth Cyngor 4.8% i gynhyrchu £3.2m ychwanegol.

Yn wahanol i rai awdurdodau eraill, trwy adnabod a gwireddu £896k o arbedion effeithlonrwydd ychwanegol a gweithredu'r cynlluniau arbedion a thoriadau a gytunwyd ym Mawrth 2016, bydd cynnydd treth 4.8% yn ddigonol er mwyn i Gyngor Gwynedd fantoli'r gyllideb, heb doriadau ychwanegol yn 2018/19.

Penderfynwyd ar gyllideb a threth 2018/19 yng nghyd-destun rhagolygon ein Strategaeth Ariannol Tymor Canol. Wedi mantoli 2018/19, bydd sefyllfa ansicr yn ein hwynebu eto erbyn 2019/20 – 2020/21. Gallasai'r grantiau am flynyddoedd dilynol fod yn debyg i setliad 2018/19, sef ychwanegiad annigonol er mwyn cwrdd â chwyddiant, neu pe bai Llywodraeth Cymru yn gwireddu ei ffigwr grant dangosol, gallwn weld gostyngiad grant £2m y flwyddyn.

Yn y cyfamser, disgwylir bydd chwyddiant yn codi £6m y flwyddyn a gall ein gofynion gwario ychwanegol barhau i gynyddu. O ganlyniad, rhwng 2018/19 a 2020/21, gallwn fod yn wynebu bwlch cyllido rhwng £11m a £20m.

Felly, mae angen i'n trefniadau ni fod yn ddigon hyblyg er mwyn gallu gwireddu hyd at £20m o arbedion. Mae'n synhwyrol i ddelio gyda chyllideb 2018/19 rŵan, a pharhau gyda'r drefn arfaethedig i adnabod arbedion a thoriadau, tra'n pwyso ar Lywodraeth Cymru i ddarparu setliad grant positif ar gyfer 2019/20 a thu hwnt. Gallwn addasu'r strategaeth arbedion yn flynyddol i ymateb yn fwy manwl erbyn y ddwy flynedd ddilynol (2019/20 a 2020/21) pryd byddwn wedi adnabod y bwlch ariannu perthnasol gyda mwy o sicrwydd.

Er mwyn gallu gwireddu arbedion yn 2019/20 a 2020/21, bydd y Cyngor yn parhau gyda'r strategaeth arbedion lle mae'r Cabinet am benderfynu ar dargedau gwahaniaethol i adrannau'r Cyngor, y penaethiaid adran yn cyflwyno cynlluniau arbedion posib i gwrdd â'r targedau hynny, a'r pwyllgorau craffu yn herio'r cynlluniau ar ran pobl Gwynedd, cyn ymgynghoriad cyhoeddus ar ddewisiadau i'w gweithredu'n flynyddol.

Nodweddion Allweddol o Gyllideb 2018/19

Am 2018/19, wedi asesiad o'r anghenion gwario sylfaenol ac addasu am £2.75m o arbedion, amcangyfrifir fydd gwariant net y Cyngor yn £242.8m wedi cynnwys £5m sydd wedi trosglwyddo i'r setliad grant. Mae'r trosglwyddiadau mewn yn cynnwys £2.9m i'r Adran Gofal Oedolion (£2m ohono o'r Grant Bwy'n Annibynnol), a £2m i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (elfen gwastraff y Grant Refeniw Sengl).

Mae chwyddiant tâl wedi'i amcangyfrif i fod yn £4.7m, ar sail cynnydd cyffredinol o 2%, gyda % sylweddol mwy i rai staff ar raddfeydd îs. Mae darpariaeth £1.8m ar gyfer chwyddiant arall, yn cynnwys effaith y cyflog byw cenedlaethol ar gostau a ffioedd ein cyflenwyr preifat, a chwyddiant sylweddol iawn ar ynni a thanwydd.

Ychwanegir hefyd £407k ar gyfer effaith cofrestru awtomatig am bensiwn. Oherwydd perfformiad buddsoddi rhagorol Cronfa Bensiwn Gwynedd, llwyddwyd i beidio cynyddu cyfraddau cyfraniad pensiwn cyflogwr y Cyngor.

Darparwyd £1.55m ychwanegol ar gyfer ariannu 'bidiau' anorfod sy'n adlewyrchu pwysau ar adrannau'r Cyngor i sicrhau parhad y lefel bresennol o wasanaeth, ynghyd â £1.51m arall o fidiau un-tro. Mae'r bidiau yn ychwanegu at gyllidebau'r adrannau ac yn cynnwys £626k i Addysg/Ysgolion, £500k i Economi, £818k i Oedolion, £170k Plant, a £466k Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

Mae targedau incwm yng nghyllidebau rhai gwasanaethau wedi'u haddasu'n deg, yn cynnwys cynnydd o £100k yn nharged incwm yr Adran Oedolion (Llywodraeth Cymru wedi codi cap ffioedd dibreswyl wythnosol), cynnydd o £65k yn nharged incwm Amgylchedd (sy'n adlewyrchu'n bennaf sefyllfa ffafriol ffioedd parcio, ffioedd am gau ffyrdd, ayb), a gostyngiad o £226k yn nharged incwm Priffyrdd (colled cyfle incwm yn sgil trosglwyddo staff i'r Asiantaeth Cefnffyrdd).

Hefyd darparwyd £691k ar gyfer "demograffi", gyda £458k ohono wrth gefn ar gyfer galw am wasanaethau'r Adran Oedolion, a £232k wedi ei ddyrannu i Ysgolion (net o addasiad uwchradd 2017/18).

Yn gyffredinol, gwneir rhagdybiaethau darbodus wrth ystyried risgiau am chwyddiant, grantiau penodol, lefelau incwm, a'r gallu i gyflawni arbedion. Fodd bynnag, mae'r gyllideb ddilynol yn cynnwys yr holl ofynion gwario ychwanegol crybwyllir uchod, a chredwn ei fod yn amcangyfrif teg o anghenion gwario ac incwm y Cyngor am y flwyddyn 2018/19.

CYLLIDEB GWEITHWYR 2018/2019

	Llawn Amser	Rhan Amser
Addysg *(Gan gynnwys trefniant Cyd-bwyllgorau)*		
- Athrawon	778	315
- Eraill	134	2,089
- GwE	64	4
Cefnogaeth Gorfforaethol	126	61
Cyllid	175	26
Economi a Chymuned	153	252
Oedolion, Iechyd a Llesiant	401	693
Plant a Chefnogi Teuluoedd	174	225
Priffyrdd a Bwrdeistrefol :-		
- Yr Adran	486	79
- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	168	7
Amgylchedd (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Eiddo Corfforaethol) *(Gan gynnwys trefniant Cyd-bwyllgor)*	169	96
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	22	6
Ymgynghoriaeth Gwynedd	107	7
Cyfanswm	**2,957**	**3,860**

Y GYLLIDEB REFENIW 2018/2019

Mae'r tudalennau canlynol cynnwys gwariant y gwahanol adrannau yn 2018/2019.

CRYNODEB

	£'000
Gwariant Gros - Adrannau	404,507
Llai - Grantiau'r Llywodraeth, Cyfraniadau	99,614
- Incwm Arall	61,495
	243,398

GWARIANT YR ADRANNAU

	Gros £'000	%	Net £'000	%
Addysg *(Gan gynnwys trefniant Cyd-bwyllgorau)*	118,269	*29.24*	86,886	*35.70*
Cefnogaeth Gorfforaethol	8,942	*2.21*	7,780	*3.20*
Cyllid	8,694	*2.15*	6,634	*2.73*
Economi a Chymuned	13,026	*3.22*	5,728	*2.35*
Oedolion, Iechyd a Llesiant	73,625	*18.20*	50,953	*20.93*
Plant a Chefnogi Teuluoedd	21,239	*5.25*	14,011	*5.76*
Priffyrdd a Bwrdeistrefol (Gan gynnwys Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru)	68,794	*17.01*	24,857	*10.21*
Amgylchedd (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Eiddo Corfforaethol) *(Gan gynnwys trefniant Cyd-bwyllgor)*	16,574	*4.10*	7,305	*3.00*
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,285	*0.56*	2,053	*0.84*
Ymgynghoriaeth Gwynedd	5,382	*1.33*	275	*0.11*
Corfforaethol - Budd-daliadau	40,266	*9.95*	9,724	*4.00*
Corfforaethol - Eraill	27,411	*6.78*	27,192	*11.17*
	404,507	***100.00***	**243,398**	***100.00***

Gwariant Gros



Incwm



ADDYSG

CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION			Cyllideb 2018-19 £'000
Ysgolion Cynradd -yn cynnwys Addysg Gynradd Ysgol Dilynol Bro Idris **(ISB Uniongyrchol)**	Gwariant		36,156
	Incwm		(28)
	Incwm - Ad-daliadau		0
			36,129
Ysgolion Uwchradd - yn cynnwys Addysg Uwchradd Ysgol Dilynol Bro Idris **(ISB Uniongyrchol)**	Gwariant		35,504
	Incwm		(1,607)
	Incwm	Grant ôl 16	(3,120)
	Incwm - Ad-daliadau		0
			30,778
Ysgolion Arbennig **(ISB Uniongyrchol)**	Gwariant		3,738
	Incwm		(1)
	Incwm - Ad-daliadau		0
			3,737
CYFANSWM - CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB UNIONGYRCHOL)			**70,643**

Cyllideb wedi ei ddatganoli i'r ysgolion. Rheolir gan Cyrff Llywodraethwyr Ysgolion.
Caiff y gyllideb ei ddyrannu i'r ysgolion yn ôl fformiwla.

Ysgolion Cynradd		
Nifer o Ysgolion Cynradd	86	
+ 5 safle Cynradd Ysgol Dilynnol	1	Ysgol Bro Idris
Nifer y Disgyblion (c.ll.a)	9,432	
Nifer yr Athrawon yn y Dyraniad	386	
Cymhareb Disgybl/Athro	24.43:1	
Nifer Athrawon		
Llawn Amser:	360	
Rhan Amser:	179	
Nifer Staff Cefnogol:		
Llawn Amser:	0	
Rhan Amser:	856	
Unedau Meithrin	85	
Ysgolion Uwchradd		
Nifer o Ysgolion Uwchradd	13	
+ 1 safle Uwchradd Dilynnol	1	Ysgol Bro Idris
Nifer y Disgyblion	6,106	(Heb gynnwys chweched dosbarth)
Nifer yr Athrawon yn y Dyraniad	369	
Cymhareb Disgybl/Athro	16.55:1	
Nifer Athrawon		
Llawn Amser:	355	
Rhan Amser:	124	
Nifer Staff Cefnogol:		
Llawn Amser:	56	
Rhan Amser:	219	
Ysgolion Arbennig		
Nifer o Ysgolion	2	
Nifer o Leoedd	211	
Nifer yr Athrawon		
Llawn Amser:	26	
Rhan Amser:	3	
Nifer Staff Cefnogol:		
Llawn Amser:	2	
Rhan Amser:	82	

ADDYSG

ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH		Cyllideb 2018-19 £'000	
Uned Rheolaeth Addysg	Gwariant	546	Darparu rheolaeth a gweinyddiaeth, gan gynnwys gwasanaeth Uned Cefnogi
	Incwm	(10)	yr Ysgolion Cynradd, Swyddogion Addysg Ardal a costau trwyddedau CAPITA.
	Incwm - Ad-daliadau	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
		536	Llawn Amser: 6
			Rhan Amser: 0
Adolygiad Strategol ADY & Ch	Gwariant	86	Darpariaeth un tro o gronfa gorfforaethol i gynnal adolygiad strategol ar y meysydd ADYa Ch
	Incwm	(86)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		0	
Ymddeol Cynnar	Gwariant	1,404	Cronfa ar gyfer costau ymddeol cynnar gwirfoddol hanesyddol athrawon er mwyn
	Incwm	0	osgoi diswyddo gormodol.
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		1,404	
Cytundebau meddalwedd, Capita, SIMS	Gwariant	164	Darpariaeth ar gyfer cytundebau systemau gwybodaeth
a Prosiect One	Incwm	0	craidd - meddalwedd systemau addysg
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		164	
Grwp Strategol Cynradd (GYDCA) /	Gwariant	16	Darpariaeth ar gyfer galw cyfarfodydd strategol a fforymau y gwasanaeth.
Grwp Cynllunio Strategol Uwchradd	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		16	
CYFANSWM - ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH		**2,120**	

ADDYSG

GWASANAETHAU ANSAWDD YSGOLION		Cyllideb 2018-19 £'000	
GWAS ANSAWDD YSGOLION -			
Swyddfeydd Ardal Addysg	Gwariant	263	Darpariaeth ar gyfer cefnogaeth gweinyddol i ysgolion gan gynnwys gwaith cyllidebau
	Incwm	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 8
		263	Rhan Amser: 3
Uned Cefnogi Addysg	Gwariant	295	Darpariaeth ar gyfer cefnogaeth cefnogol i ysgolion
	Incwm	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	(312)	Llawn Amser: 4
		(17)	Rhan Amser: 1
Hwb Siarter Iaith Gwynedd & Mon	Gwariant	58	Darpariaeth ar gyfer un swydd llawn amser Cydlynydd Siarter Iaith Gwynedd a Mon
	Incwm	(58)	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 1
		0	Rhan Amser: 0
Siarter Iaith Uwchradd	Gwariant	29	Darpariaeth ar gyfer Cydlynydd Siarter Iaith Uwchradd Gwynedd
	Incwm	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 0
		29	Rhan Amser: 1
Gwasanaethau Cerdd Ysgolion	Gwariant	132	Darpariaeth tuag at ariannu Cwmni Cerdd William Mathias a cherddorfeydd sirol, a
	Incwm	0	chronfa ar gyfer hyrwyddo gwaith y Gwasanaeth Cerdd.
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		132	
Uned Moderneiddio Ysgolion	Gwariant	339	Darpariaeth ar gyfer tîm sydd yn edrych ar Strategaeth Ysgolion y Sir.
	Incwm	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 7
		339	Rhan Amser: 1
Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar	Gwariant	17	Darpariaeth ar gyfer swydd Uwch Reolwr rhan amser , ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Plant
	Incwm	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		17	

ADDYSG

		Cyllideb 2018-19 £'000	
Cylchoedd Meithrin	Gwariant	581	Darpariaeth ar gyfer addysg feithrin rhan amser i blant yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn
-(Addysg 3 Oed 10 Awr Am Ddim)	Incwm	0	3 oed mewn sefydliadau heb fod yn ysgolion (cylchoedd meithrin a meithrinfeydd preifat).
	Incwm - Ad-daliadau	0	Mae'r gyllideb yn cynnwys taliad blynyddol craidd i'r Mudiad Ysgolion Meithrin a'r PPA
		581	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
			Llawn Amser: 0
			Rhan Amser: 1
Cyfraniad I Cyd-Bwyllgor - GwE	Gwariant	682	Cyfraniad yr Adran Addysg i'r GwE trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth -
	Incwm	0	net o'r Model Cenedlaethol
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		682	
Prosiect Addysg ac Hyfforddiant Ôl 16	Gwariant	175	Cynllun yn sefydlu a gweithredu Consortiwm Dysgu ôl-16 Gwynedd a Môn
	Incwm	(175)	Ariennir trwy gyfraniadau partneriaid. Gwynedd, Mon, Grwp Llandrillo Menai , a'r Ysgolion
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		0	
Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion	Gwariant	75	Cyllideb ar gyfer prynu Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion, gan Gwasaneth Llyfrgell y sir
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		75	
Cysagau Cymru (Cynradd ac Uwchradd)	Gwariant	1	Cyllideb ar gyfer tanysgrifiad i Cysagau Cymru
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		1	
Grant Datblygu Disgyblion **(ISB Canolig)**	Gwariant	2,362	Grant Llywodraeth Cymru i ysgolion wedi'i dargedu at helpu disgyblion o gefndir
	Incwm	(2,362)	difreintiedig i gyflawni eu potensial ac i gyfrannu yn y ffordd orau bosibl
	Incwm - Ad-daliadau	0	at gymdeithas a'r economi.
		0	
CYFANSWM - GWAS ANSAWDD YSGOLION		**2,101**	

ADDYSG

		Cyllideb 2018-19 £'000	
GRANT GWELLA ADDYSG -			
Grant Gwella Addysg - (EIG) - Gwynedd	Gwariant	5,486	Grant penodol gan Llywodraeth Cymru a dosberthir trwy'r consortia. Dangosir elfen Gwynedd
	Incwm	(4,939)	Pwrpas y grant yw i wella canlyniadau addysgol ar gyfer pob disgybl,
	Incwm - Ad-daliadau	0	a lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau disgyblion - trwy wella ansawdd yr
		547	addysgu a'r dysgu; mynd i'r afael â rhwystrau disgyblion i ddysgu a gwella cynhwysiant;
			gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a'r ymgysylltiad gan ddisgyblion.
Grant Gwella Addysg - (EIG) - Gwynedd	Gwariant	61	Mae'r grant yn cynnwys Llwybrau Dysgu, Cyfnod Sylfaen, Anwytho
	Incwm	0	a Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg, Llythrennedd a Rhifedd a Chau'r Bwlch.
	Incwm - Ad-daliadau	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
		61	Llawn Amser: 10
			Rhan Amser: 18
CYFANSWM - GRANT GWELLA ADDYSG		**608**	
CYFANSWM - GWASANAETHAU ANSAWDD YSGOLION		**2,709**	

ADDYSG

ISADEILEDD A GWASANAETHAU CEFNOGOL		Cyllideb 2018-19 £'000	
CLUDIANT			
Cludiant Ysgolion	Gwariant	4,867	Darpariaeth ar gyfer cyfrifoldeb i drefnu cludiant o'r cartref i'r ysgol / coleg yn unol a gofynion statudol a pholisïau cyfredol. Darperir cludiant trwy ddefnyddio contractau cludiant cyhoeddus a chontractau penodol gan ddefnyddio bysiau, thacsis a rhieni.
	Incwm	(261)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		4,606	
			Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-
			Llawn Amser: 0
			Rhan Amser: 1
CYFANSWM - CLUDIANT		**4,606**	
COSTAU GAN YR ADRAN ADDYSG AR RHAN YSGOLION (TRAWS SECTOR)			
CYNRADD UWCHRADD ARBENNIG A DILYNNOL			
Llanw Canolog	Gwariant	235	Darpariaeth ar gyfer athrawon llanw oherwydd absenoldebau yn deillio o gyfarfodydd a drefnir gan yr Awdurdod, athrawon yn gweithredu ar Bwyllgorau Addysg, Gwasanaeth Rheithgor a chyfrifoldebau undebol.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		235	
Cynnal a Chadw ac Eiddo	Gwariant	998	Cyllideb ar gyfer cynnal a chadw adeiladau gan gynnwys trethi a rhenti. Darpariaeth i Adran Economi a Chymuned ar gyfer defnyddio Pyllau Nofio Canolfannau Hamdden.
	Incwm	(8)	
	Incwm - Ad-daliadau	(25)	
		965	
Cytundeb CBAC	Gwariant	54	Cyfraniad blynyddol i Cyd Bwyllgor Addysg Cymru trwy gytundeb.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		54	
Cyrsiau Disgyblion	Gwariant	55	Cyrsiau preswyl i ddisgyblion hyn (yn bennaf).
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		55	
Grantiau Cyffredinol	Gwariant	52	Cyfraniadau blynyddol i gyrff allanol sydd yn darparu cyngor neu wasanaeth i ysgolion megis SNAP Cymru a grantiau Cymdeithasau Chwaraeon.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		52	

ADDYSG

		Cyllideb 2018-19 £'000	
Grantiau Dillad	Gwariant	51	Grantiau i rieni disgyblion Uwchradd blynyddoedd 7, 9 a 11 sydd yn cwrdd â'r meini
	Incwm	0	prawf. Hefyd telir grant i ddisgyblion ôl 16 i deuluoedd sydd yn derbyn Cymorth Incwm.
	Incwm - Ad-daliadau	0	Mae'r gyllideb yn cynnwys arian ychwanegol gan y cyngor i ddigolledu toriad yn y grant
		51	gan Llywodraeth Cymru ar gyfer dillad i blant blwyddyn 7
Tanysgrifiadau a Trwyddedau Ysgolion	Gwariant	62	Cytundeb rhwng yr Awdurdod a chyrff allanol am drwyddedau/hawlfraint ac yn y blaen.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		62	
Yswiriannau Ysgolion	Gwariant	590	Cost yswiriant ar gyfer sefydliadau addysgol, staff, llywodraethwyr a cerbydau.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		590	
Clwb Bocsio Caernarfon	Gwariant	0	Cyfraniad i'r Adran am ddefnydd adeilad Clwb Bocsio Caernarfon
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	(1)	
		(1)	
Arolygiadau Offer Ysgol	Gwariant	5	Adroddiadau gan arbenigwyr ar gyflwr offer addysg gorfforol yn yr ysgolion.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		5	
Cynradd - CLG's Canolog - Ysgolion	Gwariant	0	Incwm ad-daliadau gan Ysgolion ar gyfer costau canolig trwy Cytundeb Lefel Gwasanaeth
	Incwm	0	er enghraifft - Gwasanaeth Rheoli Banc ac Adnoddau Dynol
	Incwm - Ad-daliadau	(326)	
		(326)	
Grant ol-16	Gwariant	0	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Ôl 16 mewn ysgolion - elfen canolog.
	Incwm	(31)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		(31)	
CYFANSWM - COSTAU GAN YR ADRAN ADDYSG AR RHAN YSGOLION (TRAWS SECTOR)		**1,712**	

ADDYSG

		Cyllideb 2018-19 £'000	
ISADEILEDD			
Uned Data a Mynediad Addysg	Gwariant	126	Darpariaeth ar gyfer cydlynnu a rheoli systemau craidd a dadansoddi gwybodaeth yr Adran
	Incwm	(23)	Yn ogystal a trefniadau mynediad plant i'r ysgolion
	Incwm - Ad-daliadau	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
		103	Llawn Amser: 3
			Rhan Amser: 0
Uned Cyflogau / Contractau	Gwariant	128	Gwasanaeth cytundebau a contractau athrawon a cymorthyddion
	Incwm	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	(127)	Llawn Amser: 4
		1	Rhan Amser: 0
Hyfforddi Llywodraethwyr	Gwariant	87	Darpariaeth ar gyfer y rhaglen i hyfforddi llywodraethwyr.
	Incwm	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	(6)	Llawn Amser: 2
		82	Rhan Amser: 0
Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd (DBS)	Gwariant	55	Cyllideb i sicrhau bod gan pob gweithiwr ysgol DBS cyfredol.
(ISB Canolig)	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		55	
Ysgolion Wedi Cau **(ISB Canolig)**	Gwariant	278	Arbedion sefydlu Ysgol Dilynol Bro Idris, ynghyd ag arbedion cau ysgolion cynradd
	Incwm	0	sydd yn ariannu cynnal safleoedd hyd nes y gwerthir
	Incwm - Ad-daliadau	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
		278	Llawn Amser: 0
			Rhan Amser: 1
Grant Arloesedd Ysgolion Bach a Gwledig	Gwariant	279	Grant penodol newydd gan Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid ar gael i hwyluso ac annog
(ISB Canolig)	Incwm	(279)	arloesedd a newid sydd o fudd i ysgolion bach a gwledig, eu disgyblion a'r cymunedau y
	Incwm - Ad-daliadau	0	maent yn eu gwasanaethu.
		0	
Ymweliadau Ysgolion (Tramor)	Gwariant	19	Cost darparu adroddiadau arbenigol cyn i ysgolion ymweld â gwledydd tramor
	Incwm	0	Gweithredir drwy gytundeb gyda Cyngor Conwy
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		19	

ADDYSG

		Cyllideb 2018-19 £'000	
Addysg Bellach - Grantiau Dewisol	Gwariant	25	Darpariaeth ar gyfer gwobrwyo grantiau deswisol i ddisgyblion addysg bellach
	Incwm	0	Yn cynnwys darpariaeth am £3,000 ar gyfer ysgoloriaeth "Coleg Cymraeg"
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		25	
Cyfraniad i Cynnal	Gwariant	92	Cyfraniad yr Adran Addysg i Cwmni Cynnal trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		92	
Nawdd Gymunedol	Gwariant	23	Darpariaeth ar gyfer defnydd am ddim o adeialadau yr Adran i fudiadau Ieuenctid ynghyd
	Incwm	(5)	a talu cyflog gofalwyr, rhent, ynni ac offer glanhau. Mae'r gytundeb yn cynnwys taliadau
	Incwm - Ad-daliadau	0	blynyddol i Canolfan Cymdeithas y Parc a Canolfan Bryncrug. Hefyd yn cynnwys Incwm
		18	gan Pwyllgor Rheoli Nawdd Gymuedol am ad-daliad costau rhedeg
Neuadd Chwaraeon Blaenau Ffestiniog	Gwariant	75	Darpariaeth ar gyfer rhedeg Neuadd Chwaraeon Ysgol Y Moelwyn
(ISB Canolig)	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		75	
Arian Wrth Gefn Ysgolion **(ISB Canolig)**	Gwariant	111	Cyllideb i gwrdd ag amgylchiadau penodol arbennig mewn ysgolion.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	(299)	
		(188)	
Tal Trothwy Athrawon **(ISB Canolig)**	Gwariant	39	Darpariaeth ar gyfer athrawon cynradd yn symud i UPS1 ym mis Medi
	Incwm	0	i'w ddatganoli i ysgolion yn ystod y flwyddyn, fel bo'r angen.
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		39	
Grant Ysgolion Iach **(ISB Canolig)**	Gwariant	27	Darpariaeth ar gynllun ysgolion iach, trwy sefydlu cysylltiadau gyda'r cartref, y gymuned
	Incwm	(27)	fel elfen a gwasanaethau arbenigol perthnasol.
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		0	

ADDYSG

		Cyllideb 2018-19 £'000	
Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau	Gwariant	100	Grant gan Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ar maint dosbarthiadau babanod a chodi safonau
(ISB Canolig)	Incwm	(100)	Bydd y cyllid yn cael ei dargedu ar ddosbarthiadau o 28 disgybl neu fwy
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		0	
CYFANSWM - ISADEILEDD		**599**	
GWASANAETHAU ATODOL			
Rheolaeth a Gweinyddiaeth Arlwyaeth	Gwariant	394	Darpariaeth ar gyfer rheolaeth a gweinyddiaeith y gwasaneth arlwyaeth a glanhau
a Glanhau	Incwm	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	(707)	Llawn Amser: 6
		(313)	Rhan Amser: 0
Arlwyaeth Ysgolion	Gwariant	5,506	Darparu gwasanaeth arlwyaeth i ysgolion Gwynedd - darperir gwasanaeth ar gyfer y canlynol:
	Incwm	(2,200)	Ysgolion Cynradd 86
	Incwm - Ad-daliadau	(3,306)	Ysgolion Uwchradd 11
		0	Ysgol Dilynol 6
			Ysgolion Arbennig 2
			Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-
			Llawn Amser: 0
			Rhan Amser: 325
Glanhau/Gofalu Ysgolion	Gwariant	2,163	Gwasanaeth Glanhau a Gofalu -- darperir gwasanaeth ar gyfer y canlynol:
	Incwm	(79)	Ysgolion Cynradd 86
	Incwm - Ad-daliadau	(2,084)	Ysgolion Uwchradd 9
		0	Ysgol Dilynol 6
			Ysgolion Arbennig 2
			Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-
			Llawn Amser: 0
			Rhan Amser: 286

ADDYSG

		Cyllideb 2018-19 £'000	
Brecwast Am Ddim **(ISB Canolig)**	Gwariant	699	Darpariaeth brecwast ar gyfer i 76 ysgol cynradd y Sir.
	Incwm	(194)	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 0
		505	Rhan Amser: 224
Gwasanaeth Llefrith	Gwariant	172	Darpariaeth llefrith i blant ysgolion cynradd. ariennir gan
	Incwm	(172)	Llywodraeth Cymru, grant Ewrop (RPA) ac Adran Iechyd Llywodraeth Ganolog.
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		0	
Blas Am Oes	Gwariant	59	Darpariaeth i godi safonau maeth y mae disgyblion yn ei fwyta.
	Incwm	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 1
		59	Rhan Amser: 0
Uned Iechyd a Diogewlch Ysgolion	Gwariant	47	Cenfogaeth Iechyd a Diogelwch i Ysgolion
	Incwm	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 1
		47	Rhan Amser: 0
Cynnal Tiroedd **(ISB Canolig)**	Gwariant	34	Darpariaeth ar gyfer gwaith tu allan i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth sydd ar direodd ysgolion
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		34	
CYFANSWM - GWASANAETHAU ATODOL		**332**	
CYFANSWM - ISADEILEDD A GWASANAETHAU CEFNOGOL		**7,249**	

ADDYSG

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL, CYNHWYSIAD A LLES		Cyllideb 2018-19 £'000	
ADYaCH GWYNEDD A MON			
Anghenion Addysgol Ychwaengol -	Gwariant	199	Rheolaeth y gwasanaeth ADYaCH
Rheolaeth	Incwm	(94)	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 2
		105	Rhan Amser: 0
Gweinyddol ac Ansawdd	Gwariant	160	Swyddogion Gweinyddol ac Answadd ADYaCH
	Incwm	(80)	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 2
		80	Rhan Amser: 0
Swyddogion Ansawdd	Gwariant	265	Swyddogion Ansawdd ADYaCH
	Incwm	(66)	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 0
		199	Rhan Amser: 4
Uned Gweinyddol	Gwariant	372	Swyddogion Gweinyddol ADYaCH
	Incwm	(136)	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 6
		236	Rhan Amser: 1
Tim Ymddygiad a Swyddogion Cynhwysiad	Gwariant	1,043	Darparu cefnogaeth i ddisgyblion bregus o fewn ysgolion prif lif y Sir.
	Incwm	(465)	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 9
		578	Rhan Amser: 20

ADDYSG

		Cyllideb 2018-19 £'000	
Gwasanaeth Cwnsela	Gwariant	243	Amcan y grant yw cael darpariaeth cwnsela ar gyfer pob disgybl ysgol, gan roi'r
	Incwm	(96)	hyder iddynt y caiff eu hanghenion eu deall a'u datrys.
	Incwm - Ad-daliadau	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
		146	Llawn Amser: 0
			Rhan Amser: 6
Gwasanaeth Lles	Gwariant	480	Nod y Gwasanaeth yw galluogi plant a phobl ifanc i elwa'n llawn o'r ddarpariaeth
	Incwm	(192)	addysgol a gyflwynir gan ysgolion neu 'fel arall'.
	Incwm - Ad-daliadau	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
		288	Llawn Amser: 3
			Rhan Amser: 10
Saesneg fel iaith ychwanegol	Gwariant	49	Cyllideb ar gyfer disgyblion o deuluoedd teithwyr
	Incwm	(49)	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 2
		(0)	Rhan Amser: 3
CAMHS	Gwariant	25	Darpariaeth ar gyfer y gyllideb Iechyd Meddwl mewn partneriaeth a BCUHB
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		25	
Gwasanaeth Seicoleg Addysg	Gwariant	498	Darpariaeth i hwyluso ymateb addas a rhesymol pobl ifanc sydd yn profi anawsterau dysgu
	Incwm	(200)	ychwanegol.
	Incwm - Ad-daliadau	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
		298	Llawn Amser: 6
			Rhan Amser: 4
Cyfathrebu a Rhyngweithio	Gwariant	902	Darpariaeth ar gyfer Canolfannau Anhwylderau Iaith a Canolfannau Cyfathrebu Cymdeithiasol
	Incwm	(393)	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 7
		509	Rhan Amser: 17
Gwasanaeth Meddygol a Corfforol	Gwariant	117	Darpariaeth yn ystyried goresgyn unrhyw rhwystr sy'n bodoli i ddisgybl gyda
	Incwm	(47)	Nam Synhwyraidd gael mynediad llawn i'r cwricwlwm.
	Incwm - Ad-daliadau	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
		70	Llawn Amser: 2
			Rhan Amser: 1

ADDYSG

		Cyllideb 2018-19 £'000	
Gwasanaeth NAM Clyw	Gwariant	165	Darpariaeth yn ystyried goresgyn unrhyw rhwystr sy'n bodoli i ddisgybl gyda
	Incwm	(66)	Nam Synhwyraidd gael mynediad llawn i'r cwricwlwm.
	Incwm - Ad-daliadau	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
		99	Llawn Amser: 2
			Rhan Amser: 2
Gwasanaeth NAM Golwg	Gwariant	173	Darpariaeth yn ystyried goresgyn unrhyw rhwystr sy'n bodoli i ddisgybl gyda
	Incwm	(69)	Nam Synhwyraidd gael mynediad llawn i'r cwricwlwm.
	Incwm - Ad-daliadau	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
		104	Llawn Amser: 2
			Rhan Amser: 2
Gwasanaeth Arbenigol Penodol	Gwariant	286	Darpariaeth ar gyfer "Ymestyn Allan", Gwybyddiaeth a Dysgu yn cynnwys anawsterau
	Incwm	(66)	rhifedd, llythrennedd a dyslecsia.
	Incwm - Ad-daliadau	0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
		221	Llawn Amser: 4
			Rhan Amser: 3
CYFANSWM - ADYaCH GWYNEDD A MON		**2,958**	
ADYaCH GWYNEDD YN UNIG			
All-Sirol	Gwariant	1,071	Cyllideb ar gyfer cymorth ychwanegol i blant siroedd eraill ac i blant o Wynedd sydd yn
	Incwm	(85)	mynychu ysgolion tu allan i'r ffin.
	Incwm - Ad-daliadau	0	Gwariant ar ddisgyblion Gwynedd yn mynychu ysgolion y tu allan i Wynedd.
		986	Incwm o ddisgyblion yn mynychu ysgolion Gwynedd ond sy'n byw tu allan i Wynedd
Adnoddau ADY - Cynradd	Gwariant	29	Darpariaeth ar gyfer adnoddau ADY y sector Gynradd
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		29	
Adnoddau ADY - Uwchradd	Gwariant	18	Darpariaeth ar gyfer adnoddau ADY y sector Uwchradd
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		18	

ADDYSG

		Cyllideb 2018-19 £'000	
Unedau ABC (Asesu Blynyddoedd Cynnar)	Gwariant	208	Darpariaeth ar gyfer 4 Uned Cyn Ysgol i asesu sgiliau i ddisgyblion o oedran cyn-ysgol a gyfeiriwyd gan yr Awdurdod Iechyd.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	(54)	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
		154	Llawn Amser: 3
			Rhan Amser: 4
Gwasanaeth Therapi Cerdd	Gwariant	10	Darpariaeth ar gyfer y gwasanaeth therapi cerdd, i ddisgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		10	
Cynllun Trac	Gwariant	380	Mae TRAC yn gynllun sy'n cael ei harwain gan y 6 awdurdod lleol ar gyfer darparu y sgiliau a'r gefnogaeth addas i ddisgyblion a phobl ifanc mwyaf bregus y sir. Gwneir hyn ar gyfer harfogi'r garfan i lwyddo a chyrraedd eu potensial mewn addysg, hyfforddiant neu gwaith ac felly yn lleihau'r niferoedd NEET ac y rhai mewn peryg o fod yn NEET yn y Rhanbarth. Ariannir cynllun drwy Grant Ewrop.
	Incwm	(380)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		0	***Nifer o staff yn y gyllideb 2018/2019:-***
			Llawn Amser: 8
			Rhan Amser: 2
Costau Adeilad ADYaCh	Gwariant	9	Cyllideb ar gyfer cynnal a chadw adeiladau a trethi (Hen Lyfrgell, Ffordd Arran, Dolgellau a Canolfan Brynffynon)
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		9	
CYFANSWM - ADYaCH GWYNEDD YN UNIG		**1,206**	
CYFANSWM - ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL, CYNHWYSIAD A LLES		**4,164**	

ADDYSG

	Cyllideb 2018-19 £'000
EITEMAU MEMORANDWM	
CRYNODEB GWASANAETH ADDYSG	
CYFANSWM - CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION	70,643
CYFANSWM - ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH	2,120
CYFANSWM - GWASANAETHAU ANSAWDD YSGOLION	2,709
CYFANSWM - ISADEILEDD A GWASANAETHAU CEFNOGOL	7,249
CYFANSWM - ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL, CYNHWYSIAD A LLE	4,164
	86,886
CRYNODEB GWASANAETH ADDYSG	
Cyfanswm ISB Uniongyrchol	70,643
Cyfanswm ISB Canolig	799
Cyfanswm Gwariant heb fod yn ISB	15,444
Gwariant Net	**86,886**
CRYNODEB GWASANAETH ADDYSG	
Cyfanswm Gwariant	112,380
Cyfanswm Incwm	-18,248
Cyfanswm Ad-daliadau	(7,246)
Gwariant Net	**86,886**

CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

		Cyllideb 2018/19 £'000	
CEFNOGAETH GORFFORAETHOL			
Rheolaeth Cefnogaeth Gorfforaethol	Gwariant	512	Cefnogi gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd trwy gyfuniad o wasanaethau arbenigol, cefnogol a rheng-flaen.
	Incwm	(2)	
		510	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 6 Rhan Amser: 1
Cefnogi Busnes y Cyngor (Rheolaethol)	Gwariant	732	Cydlynu a chefnogi cynlluniau, prosiectau ac adolygiadau corfforaethol.
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(128)	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
		604	Llawn amser: 12 Rhan Amser: 1
Cefnogi Busnes y Cyngor (Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus)	Gwariant	135	Darparu cefnogaeth ar gyfer gweithio ar y cyd hefo Cyngor Ynys Môn, Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.
	Incwm	(64)	
		71	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 1 Rhan Amser: 2
Cefnogi Busnes y Cyngor (Diogelwch Cymunedol)	Gwariant	541	Taclo a lleihau trosedd ac anrhefn er budd diogelwch a lles pobl Gwynedd ac Ynys Môn.
	Incwm	(471)	
		70	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 3
Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Gwariant	441	Darparu gwybodaeth a chynnal deialog ddwy-ffordd hefo trigolion Gwynedd a staff y Cyngor.
		441	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 9 Rhan Amser: 3
Ymchwil a Dadansoddeg	Gwariant	240	Datblygu gallu'r Cyngor i ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth i ddod i gasgliadau dibynadwy a'r penderfyniadau gorau ar gyfer pobl Gwynedd.
		240	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 4 Rhan Amser: 1

CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

		Cyllideb 2018/2019 £'000	
Gwasanaeth Democrataidd	Gwariant	2,244	Cefnogi trefniadau democrataidd a galluogi Cynghorwyr i gyflawni gwaith ar
	Incwm	(40)	gyfer pobl Gwynedd.
		2,204	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 7 Rhan Amser: 8
Gwasanaethau'r Gymraeg	Gwariant	466	Darparu gwasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn
	Incwm	(186)	ysgrifenedig ynghyd ag hybu ac hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg.
		280	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 8 Rhan Amser: 3
Caffael	Gwariant	257	Galluogi'r Cyngor i gael gwerth am arian a chadw'r budd yn lleol.
		257	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 4
Datblygu'r Sefydliad	Gwariant	153	Annog ac hyrwyddo diwylliant sy'n caniatau i staff fod ar ei gorau.
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(20)	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
		133	Llawn amser: 3
Gwasanaeth Ymgynghorol	Gwariant	671	Cydweithio hefo gwasanaethau i sicrhau bod arferion arwain a rheoli a'r
Adnoddau Dynol	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(48)	amodau gwaith cysylltiedig yn briodol ac yn cynorthwyo'r Cyngor i
	Incwm	(17)	ddarparu'r gwasanaeth gorau.
		606	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 10 Rhan Amser: 1
Iechyd, Diogelwch a Llesiant	Gwariant	556	Cynghori swyddogion, cynghorwyr a llywodraethwyr ysgolion i warchod
	Incwm	(50)	iechyd, diogelwch a llesiant staff a phobl Gwynedd.
		506	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 9 Rhan Amser: 3

CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

		Cyllideb 2018/2019 £'000	
Gwasanaeth Cefnogol	Gwariant	936	Darparu cefnogaeth weinyddol cyffredinol ar gyfer holl wasanaethau'r
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(291)	Cyngor.
	Incwm	(16)	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
		629	Llawn amser: 25 Rhan Amser: 5
Dysgu a Datblygu	Gwariant	318	Darparu gwasanaeth ymgynghorol a chynnig cyfleon dysgu a datblygu i
	Incwm	(3)	alluogi staff a chynghorwyr i gwrdd ag anghenion.
		315	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 7 Rhan Amser: 1
Rheolaeth Siop Gwynedd, Galw Gwynedd a Chofrestru			Y gyllideb gysylltiol wedi'w dosrannu dros y tri phennawd perthnasol Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019: Llawn Amser: 1
Siop Gwynedd	Gwariant	256	Gweithredu fel siop un stop a derbynfa i'r cyhoedd yn Nolgellau, Pwllheli a
	Incwm	(31)	Chaernarfon.
		225	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 4 Rhan Amser: 10
Galw Gwynedd	Gwariant	554	Darparu gwasanaeth ymateb i alwadau ffôn, negeseuon e-byst a cheisiadau
	Incwm	(92)	ac ymholiadau ar-lein o'r Ganolfan ym Mhenrhyndeudraeth.
		462	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 8 Rhan Amser: 13
Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau	Gwariant	252	Darparu gwasanaeth cofrestru priodasau, genedigaethau a marwolaethau.
	Incwm	(249)	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
		3	Llawn amser: 1 Rhan Amser: 8
Gwasanaethau Gwybodaeth	Gwariant	224	Cynorthwyo gwasanaethau'r Cyngor i reoli gwybodaeth a chynghori ar
		224	geisiadau am wybodaeth a dderbynnir gan y Cyngor. Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019: Llawn amser: 4 Rhan Amser: 1
CYFANSWM NET CEFNOGAETH GORFFORAETHOL		7,780	

CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

Cyllideb
2018/2019
£'000

EITEMAU MEMORANDWM

CRYNODEB CEFNOGAETH GORFFORAETHOL	
Cyfanswm Gwariant	9,488
Cyfanswm Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(487)
Cyfanswm Incwm	(1,221)
Gwariant Net	7,780

CYLLID

		Cyllideb 2018/19 £'000	
CYLLID			
Cyllid	Gwariant	4,079	Darparu gwasanaeth cyllid cynhwysfawr i'r Cyngor, yn benodol - rheolaeth
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(219)	ariannol, cyfrifeg, prosesu taliadau a chyflogau, incwm, archwilio mewnol,
	Incwm	(846)	yswiriant a rheoli risg a phensiynau.
		3,014	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 86 Rhan Amser: 11
Hel Trethi a Gweinyddu Budd-daliadau	Gwariant	1,875	Gweinyddu Treth y Cyngor ac, ar sail Asiantaeth, y Dreth ar Fusnes a
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(91)	Budd-daliadau (Tai a Threth y Cyngor).
	Incwm	(958)	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
		826	Llawn amser: 39 Rhan Amser: 13
Technoleg Gwybodaeth	Gwariant	3,054	Darparu gwasanaeth datblygu, cefnogaeth a gweinyddu cymwysiadau,
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(397)	rhwydwaith, gweinyddwyr a'r ddesg gymorth.
	Incwm	(214)	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
		2,443	Llawn amser: 48 Rhan Amser: 2
Gwasanaeth Gwybodaeth Daearyddol	Gwariant	136	Rheoli darpariaeth gwasanaeth mapio digidol a gwasanaethau rheoli eraill
	Incwm	(42)	sy'n seiliedig ar gronfa ddata daearyddol.
		94	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn Amser: 2
Gwasanaeth Teleffon	Gwariant	257	Darparu gwasanaeth teleffon canolog y Cyngor.
		257	
CYFANSWM NET CYLLID		6,634	

CYLLID

Cyllideb
2018/19
£'000

EITEMAU MEMORANDWM

CRYNODEB CYLLID	
Cyfanswm Gwariant	9,401
Cyfanswm Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(707)
Cyfanswm Incwm	(2,060)
Gwariant Net	6,634

ECONOMI A CHYMUNED

ECONOMI A CHYMUNED

RHEOLAETH YR ADRAN

		Cyllideb 2018/19 £'000	
Rheolaeth yr Adran	Gwariant	404	Bwriad yr Adran Economi a Chymuned yw darparu gwasanaeth o'r ansawdd gorau fyddai'n cyfrannu tuag at greu cymunedau cynaliadwy gyda economi ffyniannus ac amrywiaeth o gyfleoedd gwaith.
	Incwm	0	
	Incwm Ad-daliadau	0	
		404	***Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:***
			Llawn amser: 4
			Rhan amser: 2

GWASANAETHAU DATBLYGU'R ECONOMI

Gwasanaeth Cefnogi Busnes	Gwariant	574	Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i fusnesau er mwyn iddynt sefydlu, bod yn gystadleuol a datblygu er mwyn iddynt creu cyflogaeth a chryfhau economi Gwynedd. Rheoli tiroedd ac unedau diwydiannol y Cyngor a rheolio Canolfannau Menter, sef Intec a Mentec, gan ddarparu cefnogaeth arbenigol ac ymarferol i denantiaid ein hunedau diwydiannol.
	Incwm	(520)	
	Incwm Ad-daliadau	(2)	
		52	***Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:***
			Llawn amser: 6
			Rhan amser: 1
Gwasanaeth Datblygu a Marchnata Twristiaeth	Gwariant	278	Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am reolaeth a gweithgareddau i farchnata Gwynedd fel cyrchfan i ymwelwyr. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am am hyrwyddo ardal Eryri Mynyddoedd a Mor, reolaeth cyrchfan a disgywddiadau y sir.
	Incwm	0	
	Incwm Ad-daliadau	0	
		278	***Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:***
			Llawn amser: 5
			Rhan amser: 0

ECONOMI A CHYMUNED

GWASANAETHAU DATBLYGU'R ECONOMI (parhad)		Cyllideb 2018/19 £'000	
Gwasanaeth Adfywio Cymunedol	Gwariant	391	Gweithgareddau i gynllunio, datblygu a gweithredu cyfres o raglenni a phrosiectau adfywio byddai'n manteisio ar gyfleoedd ac yn ymateb i anghenion lleol gan alluogi cymunedau Gwynedd i chwarae rôl flaenllaw yn y broses adfywio. Mae gwaith y Gwasanaeth ar gyfer adfywio cymunedol yn cynnwys rhwydwaith swyddogion bro, Cist Gwynedd a cymunedau ar gwaith.
	Incwm	(3)	
	Incwm Ad-daliadau	(97)	
		291	

Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:

Llawn amser:	6
Rhan amser:	1

Rhaglenni Datblygu Economaidd	Gwariant	1,086	Gwasanaeth yn gyfrifol am ddatblygu a chydlynu strategaeth economaidd i'r ardal a rheoli a datblygu prif brosiectau adfywio refeniw a cyfalaf yr Adran, gan gynnwys cynlluniau i dargedu cronfeydd ariannu gan sefydliadau megis y Llywodraeth y Cynulliad ac Ewrop. Mae'r tim yn ceisio sicrhau bod y Sir yn cymryd mantais o bob cyfle sy'n deillio o bolisïau, cronfeydd a chysylltiadau Ewrop, yn arbennig Cronfeydd Strwythurol a Cronfeydd Datblygu Wledig ac yn monitro cynnydd a pherfformiad prosiectau adfywio ac economaidd yr Adran.
	Incwm	0	
	Incwm Ad-daliadau	(818)	
		268	

Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:

Llawn amser:	11
Rhan amser:	1

ECONOMI A CHYMUNED

GWAS ARCHIFAU, AMGUEDDFEYDD A CHELFYDDYDAU		Cyllideb 2018/19 £'000	
Gwasanaeth Archifau	Gwariant	395	Darpariaeth am warchod etifeddiaeth archifol y sir drwy casglu, cadw, rhoi mynediad a hyrwyddo defnydd o'r archif ynghyd a chynnal Gwasanaeth Addysg i Ysgolion.
	Incwm	(32)	
	Incwm Ad-daliadau	(23)	***Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:***
	Incwm Gwas. Ysgolion	0	Llawn amser: 5
		340	Rhan amser: 7
Gwasanaeth Amgueddfeydd	Gwariant	340	Darpariaeth am gynnal a datblygu yr Amgueddfeydd Canlynol -
	Incwm	(254)	Storiel, Amgueddfa Lloyd George / Highgate, a sawl fân safle
	Incwm Ad-daliadau	0	arall cynnwys Ty Gwyn a Ty Crwn a Tomen y Bala.
		86	***Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:***
			Llawn amser: 3
			Rhan amser: 12
Gwasanaeth Orielau	Gwariant	69	Mae gan yr Awdurdod yr Orielau canlynol yng Ngwynedd -
	Incwm	0	Storiel, Oriel Canolfan Maenofferen.
	Incwm Ad-daliadau	0	Amcan y gwasanaeth yw annog diddordeb yn, a gwell dealltwriaeth o, gelfyddydau
		69	gwladol, crefftau a dylunio.
			Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn Amser: 0
			Rhan amser: 3
Gwasanaeth Theatrau a Sinemâu	Gwariant	435	Cyllideb ar gyfer costau Neuadd Buddug, Theatr y Ddraig, Sinema Tywyn, Neuadd Dwyfor a Neuadd Ogwen.
	Incwm	(216)	
	Incwm Ad-daliadau	(15)	***Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:***
		204	Llawn amser: 2
			Rhan amser: 16
Gwasanaeth Celfyddydau	Gwariant	176	Cyllideb ar gyfer cynnal gwasanaeth celfyddydau y Sir sydd yn cynnwys:
	Incwm	(4)	- Gweithgareddau celf cymunedol
	Incwm Ad-daliadau	0	- Grantiau i fudiadau sydd yn ymateb i nod ac amcanion Strategaeth Celfyddydau Gwynedd.
		172	***Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:***
			Llawn amser: 1

ECONOMI A CHYMUNED

GWASANAETHAU MORWROL A PHARCIAU GWLEDIG		Cyllideb 2018/19 £'000	
Gwasanaeth Morwrol	Gwariant	2,003	Darparu gwasanaeth morwrol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r amgylchedd naturiol
	Incwm	(1,994)	gan bobl leol ac ymwelwyr; rheoli harborau a Hafan Pwllheli.
	Incwm Ad-daliadau	0	Sicrhau rheolaeth gadarn yn Doc Fictoria gan ymgymerwyr allanol.
		9	Ni chynhwyswyd eu staff hwy yma.
			Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 20
			Rhan amser: 39
Parc Padarn	Gwariant	200	Darpariaeth am reoli'r cyfleusterau a holl diroedd sydd ar gael ym Mharc Gwledig Padarn.
	Incwm	(197)	Mae'r safle yn cynnwys Cilfach Ddu, Y Glyn, Coed Dinorwig a Llyn Padarn
	Incwm Ad-daliadau	0	***Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:***
		3	Llawn amser: 3
			Rhan amser: 2
Parc Glynllifon	Gwariant	95	Darpariaeth am reoli'r cyfleusterau sydd ar gael ym Mharc Glynllifon.
	Incwm	(61)	Mae Gerddi gradd 1 ar y safle ac mae Unedau Crefft ar gyfer crefftwyr lleol ar y safle.
	Incwm Ad-daliadau	0	***Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:***
		34	Llawn amser: 2
GWASANAETHAU CYMUNEDAU IACH			
Rheolaeth a Gweinyddiaeth	Gwariant	286	Cost rheoli a gweinyddu'r Gwasanaethau Cymunedau'n Iach
	Incwm Ad-Daliadau	0	***Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:***
		286	Llawn amser: 14
Cyfleusterau Byw'n Iach	Gwariant	5,147	Darparu gwasanaethau hamdden mewn 12 canolfan dan do a nifer o safleoedd awyr
	Incwm	(3,381)	agored er mwyn hyrwyddo iechyd a ffitrwydd corfforol a chynhwysiad cymdeithasol.
	Incwm ad-daliadau	(285)	Bydd y ddarpariaeth yn trosglwyddo i gwmni newydd yn ystod 2018-19
		1,481	***Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:***
			Llawn amser: 40
			Rhan amser: 101
Rhaglenni Chwaraeon	Gwariant	721	Darpariaeth ar gyfer datblygu a hybu rhaglenni chwaraeon yn gyffredinol, gyda
	Incwm	(538)	darpariaeth ychwanegol ar gyfer Swyddog Anabledd a Chynlluniau LAPA.
		183	Ariennir yn rhannol gan grantiau'r Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Chwaraeon Cymru.
			Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 17
			Rhan amser: 3

ECONOMI A CHYMUNED

GWASANAETH LLYFRGELLOEDD		Cyllideb 2018/19 £'000	
			Darpariaeth ar gyfer:-
			9 Llyfrgell Dalgylch -
Mwy 'Na Llyfrau	Gwariant	1,722	Caernarfon, Bangor, Porthmadog, Pwllheli, Dolgellau, Blaenau Ffestiniog, Tywyn,
	Incwm	(98)	Abermaw, Y Bala
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(89)	**4 Llyfrgell Gymunedol -**
		1,535	Bethesda, Penygroes, Nefyn, Criccieth
			3 Llyfrgell Dolen
			4 Llyfrgell Deithiol -
			3 gwasanaeth i 'r cartref yn ardaloedd Arfon, Dwyfor, Meirionnydd
			Un i blant 3-11 oed o fewn yr ysgolion
			Hefyd mae mynediad I'r gwasanaeth drwy catalog ar-lein, mynediad at Wi-fi, cyfrifiaduron cyhoeddus a chyfleusterau sganio a llungopio.
			Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:
			Llawn amser: 13
			Rhan amser: 64
Gwasanaeth Gwybodaeth i Blant, Pobol Ifanc a Theuleuoedd	Gwariant	33	Mae 'Gwynedd Ni' yn cyflenwi gwasanaeth Gwybodaeth am ddim i blant, pobol ifanc
	Incwm	0	a theuluoedd am bob agwedd o ofal plant.
		33	***Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019:***
			Llawn amser: 1
			Rhan amser: 0
CYFANSWM NET - ECONOMI A CHYMUNED		**5,728**	

EITEMAU MEMORANDWM

CRYNODEB ECONOMI A CHYMUNED

Cyfanswm Gwariant	14,355
Cyfanswm Incwm	(7,298)
Cyfanswm Incwm Ad-daliadau	(1,329)
Gwariant Net	**5,728**

OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

		Cyllideb 2018/19 £'000	
RHEOLAETH			
Uned y Pennaeth	Gwariant	150	Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'i staff cefnogol
			Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019 :
		150	Llawn amser: 2
GWASANAETH BUSNES			
Uned Rheolaeth Busnes	Gwariant	78	Costau rheoli'r Gwasanaeth Busnes.
			Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019 :
			Llawn amser: 1
Uned Datblygu a Rheolaeth Categori	Gwariant	459	Datblygu a monitro cytundebau a comisiynu gwasanaethau.
			Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019 :
			Llawn amser: 9
			Rhan amser: 2
Uned Systemau Perfformiad a Data	Gwariant	398	Rheoli, datblygu a chefnogi systemau ynghŷd â llunio a gweithredu Strategaeth TGCh
	Incwm	(44)	yr Adran. Hefyd yn Darparu Ystadegau'r Adran.
	Cyfraniad o reserfau	(30)	Ariennir yn rhannol gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chynllun Strategol Gwynedd
		324	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019 :
			Llawn amser: 5
			Rhan amser: 1
Uned Incwm a Lles	Gwariant	458	Asesu cyfraniadau unigolion at eu gofal, casglu incwm am wasanaethau a chynorthwyo cleientau ynglŷn â'u hawliau ym maes budd-daliadau.
			Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019 :
			Llawn amser: 10
			Rhan amser: 5

OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

		Cyllideb 2018/19 £'000	
Uned Cefnogi'r Gweithlu	Gwariant	935	Darparu ystod eang o gefnogaeth fusnes I'r Adrannau Oedolion a Plant megis talu
	Incwm	(103)	darparwyr, derbynfeydd, rheoli gwybodaeth, gofal cwsmer, rheoli asedau cleientau a
		832	chefnogaeth gweinyddol i'r timau gwaith cymdeithasol. Cesglir ffi am reoli asedau cleientau
			Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019 :
			Llawn amser: 24
			Rhan amser: 13
Prosiectau Trawsffurfio	Gwariant	336	Rheoli a gweithredu prosiectau 'Trawsffurfio Gwasanaethau Oedolion yng Ngwynedd'.
	Incwm	(49)	Ariennir yn rhannol gan Gynllun Strategol y Cyngor.
	Cyfraniad o reserfau	(178)	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019 :
		109	Llawn amser: 4
Uned Datblygu Gweithlu	Gwariant	461	Trefnu a darparu hyfforddiant i holl weithwyr yr Adran a gweithlu Gofal yn gyffredinol.
	Incwm	(320)	Ariennir yn rhannol gan grant Llywodraeth Cymru.
		141	Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019 :
			Llawn amser: 8
			Rhan amser: 2
CYFANSWM GWASANAETH BUSNES		**2,401**	

OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

		Cyllideb 2018/19 £'000	
GWASANAETHAU CANOLOG ERAILL			
Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd	Gwariant	349	Datblygu gwasanaeth i ddiogelu ac i sicrhau ansawdd gofal yn y maes preswyl Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019 : Llawn amser: 7 Rhan amser: 1
Gwasanaeth Ysbyty	Gwariant	188	Darparu gwasanaeth gwaith cymdeithasol yn Ysbyty Gwynedd. Ariennir yn rhannol gan y Bwrdd Iechyd. Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019 : Llawn amser: 4 Rhan amser: 1
	Incwm	(43)	
		145	
Cynllun OPUS	Gwariant	425	Cynllun Grant Ewropeaidd sy'n edrych i geisio cynyddu cyflogadwyedd pobl economaidd anweithredol a di-waith tymor hir sy'n 25 oed a hyn, sydd a rhwystrau cymhleth rhag cyflogaeth (er enghraifft Anabledd Dysgu, cyflwr Iechyd Meddwl). Ariennir yn llawn gan Grant Ewropeaidd. Nifer o staff yng nghyllideb 2018/2019 : Llawn amser: 9
	Incwm	(425)	
		0	
